# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 4

GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

*Hawlogaeth aelodau i rannu swydd ac i absenoldeb teuluol*

### 60 Rhannu swydd: swyddi nad ydynt yn swyddi gweithrediaeth o fewn prif gynghorau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau at ddiben hwyluso neu alluogi rhannu swydd o fewn prif gyngor.

(2) At ddibenion yr adran hon, ystyr "swydd o fewn prif gyngor" yw—

(a) cadeirydd prif gyngor (gweler adran 22 o Ddeddf 1972);

(b) is-gadeirydd prif gyngor (gweler adran 24 o'r Ddeddf honno);

(c) aelod llywyddol o brif gyngor (gweler adran 24A o'r Ddeddf honno);

(d) dirprwy aelod llywyddol o brif gyngor (gweler adran 24B o'r Ddeddf honno);

(e) cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o brif gyngor;

(f) is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o brif gyngor;

(g) dirprwy faer o fewn gweithrediaeth maer a chabinet (gweler Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (trefniadau gweithrediaeth)).

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1), yn benodol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau hwyluso neu alluogi rhannu swydd o fewn prif gyngor (gan gynnwys drwy ddiwygio rheolau sefydlog ac offerynnau eraill);

(b) gwneud darpariaeth ynglŷn â phenodi, ethol neu enwebu person i rannu swydd o fewn prif gyngor;

(c) gwneud darpariaeth ynglŷn ag arfer swyddogaethau swydd o fewn prif gyngor a rennir;

(d) gwneud darpariaeth ynglŷn â phleidleisio a chworwm pan rennir swydd o fewn prif gyngor.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, addasu, gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt), ddatgymhwyso, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

(5) Rhaid i brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion rheoliadau a wneir o dan is-adran (1).

(6) Yn is-adran (2), mae cyfeiriad at bwyllgor neu is-bwyllgor yn cynnwys cyfeiriad at gyd-bwyllgor, neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 60 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(3)(j)**

## 61 Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol

(1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 24 (absenoldeb mamolaeth)—

(a) yn lle is-adran (2) rhodder—

"(2) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—

(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb mamolaeth mewn cysylltiad â phlentyn;

(b) pryd y caniateir cymryd absenoldeb mamolaeth.";

(b) hepgorer is-adrannau (3) a (4).

(3) Yn adran 25 (absenoldeb newydd-anedig), hepgorer—

(a) is-adran (4);

(b) is-adran (6);

(c) is-adran (9);

(d) yn is-adran (10), y diffiniad o "wythnos".

(4) Yn adran 26 (absenoldeb mabwysiadydd), hepgorer is-adran (3).

(5) Yn adran 27 (absenoldeb mabwysiadu newydd), hepgorer—

(a) is-adran (4);

(b) is-adran (6);

(c) is-adrannau (9) a (10).

(6) Yn adran 28 (absenoldeb rhiant), hepgorer is-adran (4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 61 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hawlogaeth aelodau i rannu swydd ac i absenoldeb teuluol.